# Y NEUADD FAWR

# MYNEDIAD A HYGYRCHEDD

## RHOI EICH ANGHENION YN GYNTAF

Rydym yn croesawu pawb i Undeb Myfyrwyr Caerdydd ac rydym am i'n hadeiladau a'n hardaloedd cyhoeddus fod yn hygyrch i bawb.

Ein nod yw sicrhau fod pob cwsmer byddar ac anabl yn cael profiad pleserus yn Y Neuadd Fawr.

O gynlluniau mynediad cynnar i docynnau cydymaith, mannau gwylio hygyrch, a chymorth meddygol, rydym wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer eich anghenion, p'un a ydych yn ymweld am y tro cyntaf neu'n dychwelyd.

## GWASANAETHAU AR GAEL

1. Cynllun Mynediad Cynnar
2. Platfform Gwylio Hygyrch
3. Tocynnau Cydymaith
4. Mynediad Gwastad
5. Staff Cyfeillgar a Hyfforddedig
6. Bwyd a Diod Hygyrch
7. Nwyddau, Ystafell Gotiau, a Swyddfa Docynnau Hygyrch
8. Canllaw Hygyrchedd Fanwl
9. Dolenni Clyw
10. Toiledau Hygyrch

# CYNLLUN MYNEDIAD CYNNAR

**Beth yw'r Cynllun Mynediad Cynnar?**
Mae'r Cynllun Mynediad Cynnar yn darparu mynediad cynnar i'r lleoliad a'i wasanaethau i gwsmeriaid byddar ac anabl, ynghyd â'u cymdeithion, cyn i weddill y cyhoedd cael mynediad. Mae hyn yn caniatáu i gwsmeriaid cymwys cyrraedd 15 munud cyn gweddill y cyhoedd, gan gynnig profiad mwy cyfforddus.

Mae'r Cynllun Mynediad Cynnar yn caniatáu mynediad i'r cyntedd, lle dewch o hyd i:

- bar
- stondin nwyddau
- seddi
- cyfleusterau toiled hygyrch
- ystafell gotiau

Mae hyn yn eich helpu i osgoi ciwiau a'r amgylchedd prysur wrth fynd trwy’r ardal ddiogelwch, archebu diod, ac ymweld â'r ystafell gotiau.

Gall cwsmeriaid byddar ac anabl ddod i mewn i'r lleoliad am 18:45 cyn i weddill y cyhoedd cael mynediad am 19:00 (oni nodir yn wahanol ar y tocyn).

Mae’r cynllun yn caniatáu mynediad cynnar i'r cyntedd, ar yr un lefel â’r awditoriwm. *Nid yw mynediad cynnar i'r awditoriwm yn bosibl gan y gallai'r band fod yn paratoi o hyd.*

**Sut mae'r Cynllun Mynediad Cynnar yn gweithio?**
Dylai cwsmeriaid sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Mynediad Cynnar adrodd i'r Swyddfa Docynnau o 18:45 (oni nodir yn wahanol ar y tocyn). Yma, bydd tocynnau'n cael eu sganio, a bydd cwsmeriaid yn cael eu hebrwng i'r cyntedd trwy lifft neu risiau.

Gall cymdeithion ymuno â'r Cynllun Mynediad Cynnar os ydynt yn cyrraedd gyda'r cwsmer yn y Swyddfa Docynnau.

Mae pob llawr yn wastad gydag arwyneb caled, a'r pellter cerdded o'r Swyddfa Docynnau i'r cyntedd yw 20m (gyda thaith mewn lifft).

Am 19:00, bydd drysau'r awditoriwm yn agor, gan ganiatáu mynediad cynnar i gwsmeriaid cyn gweddill y cyhoedd.

**Sut i gofrestru ar gyfer y Cynllun Mynediad Cynnar?**
I ddefnyddio'r Cynllun Mynediad Cynnar, rhaid i gwsmeriaid lenwi'r Ffurflen Gais Hygyrchedd ar gyfer pob sioe. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael, felly mae’r system yn gweithio ar sail gyntaf i'r felin. Gweler rhagor o wybodaeth isod.

**Crynodeb:**

- Mynediad cynnar i'r lleoliad ar gyfer cwsmeriaid byddar ac anabl.
- Mynediad am 18:45 drwy'r Swyddfa Docynnau.
- Mynediad i'r cyntedd cyn gweddill y cyhoedd.
- Rhaid cofrestru trwy'r Ffurflen Gais Hygyrchedd.

# TOCYNNAU CYDYMAITH

**Beth yw tocynnau cydymaith?**

Mae Swyddfa Docynnau Caerdydd yn cynnig tocynnau am ddim i gymdeithion sy'n cynorthwyo cwsmeriaid byddar ac anabl. Mae'r tocynnau hyn yn caniatáu i gymdeithion fod gyda chwsmeriaid trwy holl wasanaethau'r lleoliad.

Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael, felly mae'r system yn gweithio ar sail gyntaf i'r felin.

Disgwylir i gymdeithion gynorthwyo'r cwsmer wrth symud o amgylch y lleoliad, prynu a chario bwyd a diodydd, a bodloni'r holl ofynion mynediad. Ni ddylent adael y cwsmer ar eu pen eu hunain am gyfnodau hir, methu â bodloni gofynion mynediad y cwsmer, na bod yn feddw yn y digwyddiad.

**Sut i gofrestru ar gyfer Tocynnau Cydymaith**

Gellir gwneud cais am docynnau cydymaith gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Hygyrchedd. Mae hon yn system sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae tocynnau cydymaith ar gael drwy'r ffurflen hon yn unig, nid trwy unrhyw asiant tocynnau gan gynnwys Ticketmaster Universe.

**Crynodeb:**

- Tocynnau am ddim i gymdeithion sy'n cynorthwyo cwsmeriaid byddar ac anabl.
- Mae disgwyl i gymdeithion gynorthwyo gyda gwahanol dasgau trwy gydol y digwyddiad.
- Cofrestru trwy'r Ffurflen Gais Hygyrchedd yn ofynnol.

# BALCONI GWYLIO HYGYRCH

**Beth yw'r Balconi Gwylio Hygyrch?**

Mae Swyddfa Docynnau Caerdydd yn cynnig dau falconi gwylio hygyrch mawr gyda seddi a golwg anghyfyngedig o'r llwyfan a'r dorf, sydd ar gael i gwsmeriaid byddar ac anabl yn unig. Bydd y rhai sydd wedi gwneud cais llwyddiannus yn dilyn y Cynllun Mynediad Cynnar ac yn cael eu hebrwng i'r Balconi Gwylio Hygyrch ychydig cyn i'r drysau agor i bawb.

Mae lle pwrpasol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae stiward yn bresennol ar bob balconi gwylio ar gyfer y digwyddiad cyfan i gynorthwyo cwsmeriaid gydag ymholiadau.

**Cyrraedd y Balconi Gwylio Hygyrch**

Dylai cwsmeriaid gyrraedd y Swyddfa Docynnau 15 munud cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd er mwyn defnyddio'r Cynllun Mynediad Cynnar. O'r cyntedd, bydd cwsmeriaid sy'n defnyddio'r balconi gwylio hygyrch yn cael eu hebrwng i'r balconi ychydig cyn i'r drysau agor i'r cyhoedd. Bydd cwsmeriaid yn cael eu tywys trwy lifft ac ardaloedd gyda lloriau gwastad caled, neu risiau a rheiliau llaw os yw'n well gan unigolyn.

**Crynodeb:**

- Dau falconi gwylio hygyrch mawr gyda seddi.
- Mynediad cynnar ac aelod o staff yn tywys drwy'r Cynllun Mynediad Cynnar.
- Stiwardiaid ar gael i gynorthwyo yn ystod y digwyddiad.

# FFURFLEN GAIS TOCYNNAU A HYGYRCHEDD

Gellir prynu tocynnau o wefan Swyddfa Docynnau Caerdydd (cardiffboxoffice.com) . Mae'r wefan yn gweithio gyda darllenwyr sgrin arferol.

Os yw cwsmer yn dymuno defnyddio'r balconi gwylio hygyrch, y cynllun mynediad cynnar, neu docyn cydymaith, dylent hefyd lenwi'r ffurflen gais ar y wefan yma.

**PWYSIG:** Dylai cwsmeriaid byddar ac anabl brynu tocyn arferol ar gyfer y sioe y maent yn dymuno ei mynychu o wefan Swyddfa Docynnau Caerdydd cyn llenwi ffurflen mynediad hygyrch.

Mae'r holl docynnau yn ddigidol a byddant yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost cofrestredig.

**Beth yw'r Ffurflen Gais Hygyrchedd?**
Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i wella hygyrchedd lleoliadau, rydym wedi cyflwyno 'Ffurflen Gais Hygyrchedd'. Defnyddir y ffurflen hon gan dîm ein Swyddfa Docynnau i ddarparu ar gyfer anghenion mynediad penodol a cheisiadau gan gwsmeriaid byddar ac

anabl. Mae'r system wedi'i chynllunio i helpu ein tîm i ddeall a diwallu'ch anghenion yn well, gan wneud y broses archebu'n haws i chi ac yn fwy effeithlon i ni.

Gellir cyrchu'r Ffurflen Gais Hygyrchedd ar-lein yma. Rhaid i gwsmeriaid byddar ac anabl sy'n dymuno defnyddio'r Cynllun Mynediad Cynnar a balconi gwylio hygyrch, neu ofyn am docynnau cydymaith am ddim llenwi'r ffurflen hon. Er mwyn atal camddefnydd a sicrhau bod y tocynnau hyn ar gael i'r rhai sydd ag angen gwirioneddol, mae'r ffurflen yn gofyn am brawf o gymhwysedd. Dyma enghreifftiau o dystiolaeth a dderbynnir:

- Tudalen flaen llythyr DLA/PIP (nid oes angen cyfradd benodol)
- Tudalen flaen llythyr Lwfans Gweini (nid oes angen cyfradd benodol)
- Prawf o gofrestriad fel rhywun â nam difrifol ar y golwg (dall)
- Cerdyn Adnabod Ci Cymorth Cydnabyddedig
- Llythyr gan Gartref Gofal 24 awr
- Cerdyn Mynediad cydnabyddedig gyda symbol +1 (fel CredAbility)
- Mae croeso i chi olygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â faint o fudd-dal a delir neu gyflyrau iechyd penodol wrth gyflwyno dogfennau.

Os nad oes gennych unrhyw un o'r dystiolaeth uchod, mae'r ffurflen yn rhoi gwagle i chi egluro pam fod angen mynediad at ein gwasanaethau hygyrchedd arnoch.

Mae gweithredu'r system hon yn ein galluogi i gynnig mwy o docynnau i'n cwsmeriaid ac yn ein helpu i nodi ein cryfderau ac ardaloedd am welliannau. I'r rhai sydd angen cydymaith, mae'r system hon yn sicrhau mwy o argaeledd tocynnau, ac i'r rhai sy'n mynychu'n annibynnol, mae'n ein helpu i ddod o hyd i'r seddi gorau posibl i wella'ch profiad.

**Crynodeb:**

- Ffurflen ar-lein ar gyfer anghenion mynediad penodol.
- Mae gofyn am dystiolaeth o gymhwysedd.
- Helpu'r tîm i fodloni gofynion cwsmeriaid yn effeithiol.

## Mae'r Headliner Lounge

Mae'r Headliner Lounge yn rhan o'n huwchraddiadau premiwm ar gyfer y profiad eithaf yn Neuadd Fawr. Dewch o hyd i ragor o wybodaeth yma, gan gynnwys sut i brynu tocynnau.

Mae pob un o'n darpariaethau hygyrchedd, gan gynnwys tocynnau PA/Cydymaith, y Cynllun Mynediad Cyntaf, a'r Balconi Gwylio Hygyrch, ar gael yn llawn i unrhyw un sy'n prynu Uwchraddiad Headliner Lounge.

Mae mynediad i'r Headliner Lounge drwy'r un llwybr â Mynediad Cyffredinol, felly gweler yr adran "Cyrraedd Yma". Mae'r llwybr yn ddi-gam.

Mae toiledau hygyrch o fewn y Headliner Lounge.

**Balconi Gwylio Hygyrch & The Headliner Lounge**

Os ydych wedi'ch archebu ar gyfer y Balconi Gwylio Hygyrch, bydd yr un broses yn cael ei dilyn fel y disgrifir yn yr adran "Defnyddio ein Balconi Gwylio Hygyrch".

Bydd y balconi gwylio yn agor 15 munud cyn y caniateir Mynediad Cyffredinol i fynd i mewn. Cyn hynny, mae croeso i chi fwynhau buddion y Headliner Lounge.

Mae'r Headliner Lounge tua 10 metr i ffwrdd (heb gamau, arwyneb gwastad) o'r ddau falconi gwylio.

**PA/Cydymaith & The Headliner Lounge**

Os ydych wedi archebu tocyn PA/Cydymaith, bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r Headliner Lounge. Bydd eich PA/Cydymaith yn gallu cael mynediad at yr un buddion â chi. Gweler yr adran tocynnau PA/Cydymaith am ragor o wybodaeth.

**Cynllun Mynediad Cyntaf & The Headliner Lounge**

Mae'r Headliner Lounge yn agor un awr cyn Mynediad Cyffredinol.

## YMHOLIADAU I'R SWYDDFA DOCYNNAU

Gall cwsmeriaid gysylltu â'n gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer ymholiadau ynghylch cyfleusterau i gwsmeriaid byddar ac anabl drwy e-bostio: hello@cardiffboxoffice.co.uk

**Ymholiadau Diwrnod y Digwyddiad**

Ar ddiwrnod y digwyddiad bydd Mewnflwch y Swyddfa Docynnau yn brysur a does dim sicrwydd y bydd pob e-bost yn derbyn ymateb.

Gall cwsmeriaid holi staff y Swyddfa Docynnau yn y lleoliad cyn i ddrysau agor. Gellir dod o hyd i gyfarwyddiadau i'r Swyddfa Docynnau ar y wefan hon. Mae'r Swyddfa Docynnau yn agor am 18:45.

## CYRRAEDD Y LLEOLIAD

**Sut i gyrraedd a chael mynediad i'r lleoliad**
Dylai pob cwsmer byddar ac anabl fynd i mewn trwy'r Swyddfa Docynnau er mwyn cyrraedd y Balconi Gwylio Hygyrch neu ddefnyddio'r Cynllun Mynediad Cynnar. Mae yna gadeiriau ar gael yn y Swyddfa Docynnau i'w defnyddio wrth aros i'r lleoliad agor neu os oes oedi tra byddwn yn gwasanaethu cwsmeriaid eraill.

Dylai cwsmeriaid byddar ac anabl fynd i mewn trwy'r mynediad ar Ffordd Senghennydd CF24 4AY, gan ddefnyddio'r drws i'r chwith o'r CO-OP. Mae hon yn fynedfa uniongyrchol i'r Swyddfa Docynnau sy'n osgoi'r ciw mynediad cyffredinol. Bydd y drws hwn wedi'i farcio gyda baner GLAS.

Mae'r drws hwn wedi'i beiriannu ac mae ganddo fynediad gwastad gydag arwyneb caled yr holl ffordd i'r Swyddfa Docynnau a'r lleoliad.

Dolen Google Maps i’r drws: https://maps.app.goo.gl/MHB7sLBif3kUoERi6

What Three Words: ///clever.goes.chip

**Parcio**
Nid oes parcio preifat ar gyfer y Neuadd Fawr. Fodd bynnag, mae parth gollwng hygyrch ar gael y tu allan i Theatr y Sherman, gyda thir gwastad, caled yn arwain at y Swyddfa Docynnau.

**Gollwng**

Mae yna barth gollwng hygyrch y tu allan i Theatr y Sherman, XXX o'r Swyddfa Docynnau dros dir caled a gwastad. Mae hwn yn fan cyhoeddus ac mae’n cael ei ddefnyddio gan leoliadau eraill felly gall fod yn brysur wrth gyrraedd. Ni all cerbydau barcio yma, dim ond gollwng a chasglu cwsmeriaid.

## Cyrraedd Ar y Trên

### Gorsaf Cathays

Mae gorsaf Cathays wedi'i lleoli llai na 200m o'r Swyddfa Docynnau.

Mynediad Heb Risiau: Categori B3

Er bod y ddau blatfform yn Cathays heb risiau, nid oes cyfleusterau er mwyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, a phobl â llai o symudedd groesi rhwng Platfform 1 a 2 oherwydd pont droed serth. Cynghorir i gwsmeriaid sydd wedi teithio o'r Cymoedd ac sy'n dymuno cael mynediad i'r Brifysgol neu'r Ganolfan Ddinesig deithio i orsaf Heol y Frenhines, newid i wasanaeth tua’r Gogledd a dod oddi ar y trên yn Cathays ar y gwasanaeth yn ôl.

### Gorsaf Caerdydd Canolog

Mae Gorsaf Caerdydd Canolog ychydig o dan 2km (1.2 milltir) i ffwrdd o'r Swyddfa Docynnau wrth gerdded.

Mynediad Heb Risiau: Categori A

Mae mynediad heb risiau ar gael i blatfformau 0 i 8.

### Cyrraedd mewn Tacsi

Gall tacsis ollwng cwsmeriaid tu allan i brif ddrysau Undeb Myfyrwyr Caerdydd, o fewn 20m i’r swyddfa docynnau.

**Crynodeb:**

- Mynediad o Ffordd Senghennydd gyda drws awtomatig fflat.
- Nid oes parcio preifat, ond mae parth gollwng hygyrch ar gael.
- Cadeiriau ar gael yn y Swyddfa Docynnau wrth aros.

**Y Swyddfa Docynnau**

Ar ôl cyrraedd y lleoliad, mae'r swyddfa docynnau 50m o'r fynedfa ar hyd coridor fflat wedi’i oleuo.

Bydd cadeiriau ar gael yn y Swyddfa Docynnau wrth aros i'r lleoliad agor - gall cwsmeriaid sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Mynediad Cynnar neu'r Platfform Gwylio Hygyrch ddefnyddio'r rhain.

Mae cownter is a dolen clyw ar gael yn y Swyddfa Docynnau.

Mae’r llawr yn galed ac yn wastad.

## SYMUD O GWMPAS O FEWN Y LLEOLIAD

Mae'r awditoriwm un lefel i fyny o'r Swyddfa Docynnau, mae dau lifft ar gael gyda mynediad gwastad o'r Swyddfa Docynnau.

I'r rhai sydd angen lifft, bydd stiward ar gael o'r Swyddfa Docynnau i hebrwng cwsmeriaid i'r awditoriwm. Mae stiwardiaid ychwanegol o amgylch y lleoliad a ger y lifftiau er mwyn darparu cyfeiriad pan fo angen.

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio'r balconi gwylio hygyrch neu'r Cynllun Mynediad Cynnar, bydd stiward yn eu hebrwng nhw a'u cydymaith o'r Swyddfa Docynnau i'r Balconi.

**Lefelau’r Adeilad**
Llawr Gwaelod: Swyddfa Docynnau a Mynediad

Lefel 1: Prif Awditoriwm, Cyntedd, Bariau a Stondinau Nwyddau

Lefel 2: Platfform Gwylio a Bariau Hygyrch.

**Lifftiau yn y lleoliad**
Ar hyn o bryd mae un lifft teithwyr yn y lleoliad sydd â mynediad i bob llawr, rydym yn y broses o adeiladu ail lifft. Mae gan y lifft ddimensiynau mewnol o:

Lled y Drws:

Taldra:

Lled:

Dyfnder:

**Grisiau**
Mae pob un o risiau'r lleoliad yn cynnwys rheiliau llaw ar y ddwy ochr.

Mae 22 gris o'r Swyddfa Docynnau i'r Neuadd Fawr.

**Toiledau**
Mae toiledau hygyrch ar bob lefel yn y lleoliad gyda mynediad fflat heb risiau o'r awditoriwm neu'r Balconi Gwylio Hygyrch.

Mae pob clo yn defnyddio allwedd radar y gellir ei gasglu o unrhyw far yn y lleoliad neu'r swyddfa docynnau. Rhaid i gwsmeriaid ddod â'r allwedd yn ôl i'r ardal y cawsant hi ohoni.

• Lled drws yr holl doiledau yw ...
• Mae ardal llawr clir yn yr holl doiledau hyd at ...
• Mae gofod o 800mm wrth ymyl y toiled
• Mae trosglwyddiad o'r dde a'r chwith i'r toiled
• Mae rheiliau fertigol wedi'u gosod wrth ymyl y toiled
• Mae'r tapiau basn yn dapiau lifer ym mhob toiled
• Mae golau strôb wedi'i gysylltu â'r larwm tân ym mhob toiled hygyrch
• Mae llinyn brys ym mhob toiled hygyrch sy'n canu larwm gyda'r tîm diogelwch os bydd argyfwng. Gall gweithwyr proffesiynol hyfforddedig agor y cloeon o'r tu allan mewn argyfwng.
• Mae cyferbyniadau lliw rhwng arwynebau
• Mae arwyddion clir i bob toiled
• Mae cyfleusterau newid babanod ar gael yn Nhoiledau'r Swyddfa Docynnau a Balconi Gwylio Hygyrch

**Pellteroedd i doiledau**
Mae gan bob toiled hygyrch fynediad heb risiau o unrhyw leoliad yn yr adeilad.

- Y pellter o'r Platfform Gwylio Hygyrch Chwith yw 5m
- Y pellter o'r Platfform Gwylio Hygyrch Dde yw 45m
- Y pellter o'r prif awditoriwm yw 30m
- Y pellter o'r Swyddfa Docynnau yw 30m

**Allwedd Radar**
Gellir casglu allwedd radar o unrhyw far yn y lleoliad neu'r swyddfa docynnau. Rhaid i gwsmeriaid ddod â'r allwedd yn ôl i'r ardal y cawsant hi ohoni.

## BWYD A DIOD

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio'r platfform gwylio hygyrch, gellir archebu bwyd a diod o'r bar cyfagos, sydd â chownter is. Mae hyn yn cynnwys bwyd poeth.

Nid oes drysau ac mae llawr clir, caled o'r balconi gwylio hygyrch i'r bar. Y pellter yw 10m.

Ar gyfer cwsmeriaid yn yr awditoriwm, gellir archebu bwyd a diod o'r bar yn y cyntedd, sydd â chownter is. Mae hyn yn cynnwys bwyd poeth fel cŵn poeth. Mae'r pellter o'r awditoriwm i'r bar tua 20m

• Mae bwydlen gorfforol gyda ffont fawr ar gael ar gais. Gallwch hefyd gweld y fwydlen yma. Dolen

• Mae toiledau hygyrch yn agos at yr ardaloedd bwyd a diod.

**Dolenni Sain**
Mae Dolen Sain wedi'i gosod yn y Swyddfa Docynnau yn ogystal â'r ystafell gotiau.

Mae angen newid cymhorthion clyw i T er mwyn derbyn y signal.

**Cyfleusterau Meddygol**
Ym mhob digwyddiad mae Swyddfa Docynnau Caerdydd yn gweithredu gyda thîm meddygol proffesiynol ar y safle.
• Gellir cyrraedd yr ardal feddygol ar arwyneb gwastad a chaled, ac mae'n agos at y lifftiau.
• Mae cyfleuster hollol breifat ar gael ar gyfer y tîm meddygol.
Gellir cysylltu â'r tîm meddygol drwy siarad ag unrhyw aelod o staff neu ddiogelwch.

## ARGYFYNGAU A GWACÁU'R ADEILAD

Mewn argyfwng, bydd larwm yn canu ym mhob ardal, goleuadau'n fflachio yn y prif awditoriwm, a goleuadau strôb yn y toiledau hygyrch. Bydd stiwardiaid yn sicrhau bod pawb yn gadael yn ddiogel.

Mae cadeiriau gwacáu ar gael. Mae gan y rhain llwyth gweithredol diogel o 136kg, ac mae staff wedi'u hyfforddi i'w defnyddio.

Mae gan bob rhan o'r lleoliad gynllun gwacáu brys gan gynnwys yr ardaloedd hygyrch. Mae ein staff wedi'u hyfforddi'n llawn ar gyfer gwacáu'r lleoliad ac mae gan bob ardal hygyrch aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig er mwyn helpu pobl allan o'r ardaloedd hygyrch.

## MANNAU TAWELACH

Mae byrddau a chadeiriau yn nerbynfa'r adeilad ar Lefel 2 y tu allan i'r lleoliad cerddoriaeth swnllyd, a gall cwsmeriaid cael mynediad i'r ardal hon trwy siarad ag aelod o staff. Dyma ardal dawelaf y lleoliad ac mae wrth ymyl y cyfleusterau meddygol.

Dewis arall yw'r balconi sydd fel arfer yn agored ar gyfer mynediad cyffredinol ac yn llai prysur, ond mae'n parhau i fod yn swnllyd. Mae bar, byrddau a chadeiriau tawel, ac mae'r gofod yn wastad ac yn hygyrch. Dylai cwsmeriaid ofyn i staff am gyfarwyddiadau neu ddilyn arwyddion i'r "Balconi". Os bydd angen lifft ar gwsmer er mwyn cael mynediad i'r Balconi gallant siarad ag unrhyw stiward a fydd yn eu tywys.

## CŴN CYMORTH

Mae Swyddfa Docynnau Caerdydd yn croesawu cŵn cymorth y tu fewn i'r lleoliad.

- Yn anffodus, nid yw staff y lleoliad yn gallu gofalu am gŵn cymorth yn ystod perfformiad.
- Gellir darparu powlenni dŵr o'r dderbynfa ar lefel 2.
- Ni ellir gadael cŵn cymorth heb oruchwyliaeth yn y lleoliad.

## DOD Â MEDDYGINIAETHAU, BWYD A DIOD

Mae Swyddfa Docynnau Caerdydd yn croesawu mynychwyr sydd angen dod â meddyginiaethau, bwyd neu ddiod i reoli cyflwr meddygol. Mae croeso i gwsmeriaid gysylltu â ni cyn eich ymweliad am gyngor, cydnabyddiaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y lleoliad o'ch anghenion, neu os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau; mae croeso i chi ddod ag unrhyw ddogfennau ategol gyda chi os dymunwch.

Mae staff wrth y drws wedi'u hyfforddi ynghylch ein polisi ar gyfer cwsmeriaid sydd â gofynion meddygol ac maent yn deall y gallai fod angen i bobl gyflenwi eu darpariaethau eu hunain er mwyn rheoli cyflwr. Os oes gan aelod o staff wrth y drws unrhyw gwestiynau, byddant yn ffonio'r Rheolwr ar Ddyletswydd i drafod y mater yn breifat.

## LEFELAU SŴN

Ychydig iawn o ddylanwad sydd gennym wrth gynnal digwyddiadau cerddoriaeth fyw o ran lefelau sain. Yn gyffredinol, mae artistiaid yn teithio gyda'u systemau sain a goleuo eu hunain ac mae eu peirianwyr yn eu rheoli trwy gydol y digwyddiad. Rydym yn monitro ansawdd sain ac allbwn desibel, a byddwn yn cynghori criwiau cynhyrchu, pan fo angen, er na fyddwn yn gallu troi'r sŵn i lawr oni bai ei fod yn torri cyfyngiadau cyfreithiol. Mae plygiau clustiau ar gael ar gais o'r bariau.

## GOLEUADAU STRÔB

Bydd sioeau yn dod â gweithredwr goleuadau eu hunain ac, mewn rhai achosion, eu gosodiadau goleuo eu hunain. Mae hyn yn golygu nad oes gan Swyddfa Docynnau Caerdydd lawer o reolaeth dros ba oleuadau sy'n cael eu defnyddio yn ystod y sioe.

Byddwch hefyd yn ymwybodol y bydd y rhan fwyaf o sioeau'n cynnwys goleuadau strôb neu effeithiau mwg. Bydd arwyddion ar gael yn y lleoliad i roi gwybod i gwsmeriaid am hyn.

## NWYDDAU

Mae stondin nwyddau wedi'i lleoli ar Lefel 1, mae hyn yr un lefel â'r prif awditoriwm. Mae'r Balconi Gwylio Hygyrch ar Lefel 2, mae'r prosesau canlynol ar waith i sicrhau bod cwsmeriaid byddar ac anabl yn cael yr un cyfle i brynu nwyddau. PHOTO

Bydd cwsmeriaid y Cynllun Mynediad Cynnar a  Balconi Gwylio Hygyrch yn cael cynnig ymweld â'r stondin nwyddau ar eu ffordd i'r balconi wrth gyrraedd. Yn ogystal, gall cwsmeriaid ofyn i'r stiwardiaid eu hebrwng i'r stondin nwyddau yn ystod y digwyddiad.

Mae cownter is yn y stondin nwyddau ac mae staff wrth law i helpu.

## DEFNYDDWYR CADAIR OLWYN

Mae'r Neuadd Fawr yn gwbl hygyrch mewn cadair olwyn. PHOTO

Mae lifftiau, toiledau a phlatfformau gwylio ar gael ynghyd â chownteri is wrth fariau, stondinau nwyddau a'r swyddfa docynnau.

## DOLENNI CLYW

Mae dolenni clyw ar gael yn y Swyddfa Docynnau, Ystafell Gotiau a Bariau Hygyrch.

## PERFFORMIADAU Â CHYMORTH

Ar hyn o bryd nid yw'r Neuadd Fawr yn gallu darparu dehongliadau, capsiynau, na disgrifiadau sain ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Fodd bynnag, mae gwaith i newid hyn yn parhau.

Dylai cwsmeriaid sydd angen y gwasanaethau hyn gysylltu â ni trwy lenwi'r ffurflen gais hygyrchedd er mwyn i'n tîm eich cynghori orau.